# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2647 |
| Committee | Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio |
| Date | 17/01/2024 |
| Attendees | Joanne Absalom (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Sonia Behr (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr  Keith Chaplin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Chris Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd Joanna Wilkins (Aelod Pwyllgor)<br>Martin Veale (Aelod Pwyllgor)<br>Cheryl Hucker (Aelod Pwyllgor)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Louise Rosser (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Andrea Owen (Swyddog)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Sarah King (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Deborah Woods (Public)<br>Mike Jones (Public)<br>Charlotte Owen (Public)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Deborah Jones (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8064 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8065 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Bevan, W. Hodgins a K. Chaplin. |

| | |
|---|---|
| | Estynnodd y Cadeirydd groeso i Cheryl Hucker, Aelod Lleyg i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. |

| Item ID | 8066 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 8067 |
|---|---|
| Item Title | Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio |
| Summary | Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o drafodion. |

| Item ID | 8068 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu |
| Summary | Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2023, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Eitem 9 – Adroddiad Blynyddol 2022/2023 y Rheolwr Archwilio a Risg</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad yng nghyswllt yr ymchwiliadau cyfredol. Atebodd y Rheolwr Archwilio a Risg y byddai'n gofyn am eglurhad gan yr Adran Gyfreithiol am gyfyngiadau ac adrodd yn ôl yn briodol i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r Ddalen Weithredu. |

| Item ID | 8103 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith 2023-24 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd.<br><br>Cynigiwyd cyflwyno Datganiad Cyfrifon 2022/23, Archwiliad Datganiadau Ariannol a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 222/23 i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol (mis Mawrth os yn bosibl) ac adolygu'r eitem ar gyfer Pwyllgor mis Chwefror.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 8104 |
|---|---|
| Item Title | Archwilio Cymru – Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2022 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r Crynodeb Archwilio Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. |

| Item ID | 8105 |
|---|---|
| Item Title | Archwilio Cymru: Cydbwyllgorau Corfforaethol – sylwebaeth ar eu cynnydd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Weithredwr Interim.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys Adroddiad Archwilio Cymru 'Cydbwyllgorau Corfforaethol – sylwebaeth ar eu cynnydd' a bod y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn derbyn unrhyw adroddiadau yn y dyfodol gan Archwilio Cymru ar gynnydd y Cydbwyllgorau. |

| Item ID | 8106 |
|---|---|
| Item Title | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau fod camgymeriad teipio ar dudalen 81 a chadarnhaodd y byddai hyn yn cael ei gywiro ac ymatebodd i'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau am eglurhad a diwygiad yn y Datganiad Llywodraethiant terfynol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor wedi ystyried a herio'r cynnwys a barnu ei fod yn gydnaws gyda'u gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion ehangach sy'n effeithio ar y Cyngor, yn amodol ar y diwygiadau arfaethedig. |

| Item ID | 8107 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Gweithredu Asesiad Ansawdd Allanol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad ac ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio y cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau o'r EQA, a roddir yn Atodiad A a B, a nododd y cynnydd a wnaed. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 8108 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Archwilio Technoleg Gwybodaeth SRS |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi Crynodeb Gweithgaredd Archwilio 23/24 y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS) a ddarparwyd gan CBS Torfaen, yn cynnwys cynllun TG SRS a'r cynnydd a wnaed ar hynny (Atodiad A). |